

Tasg 1

Pam mae chwarae yn bwysig?

Dywed Family lives (2020) bod chwarae yn flynyddoedd cynnar yn angenrheidiol i ddatblygiad plentyn, mae plant yn gallu datblygu nifer o sgiliau trwy chwarae megis sgiliau iaith, datblygu emosiynau, creadigrwydd, a sgiliau cymdeithasol. Mae chwarae yn helpu plant meddwl yn greadigol, a drwy hun maent yn gallu dysgu sgiliau bywyd sef datrys problemau, gweithio gydag eraill, rhannu a llawer fwy, mae hyn yn paratoi plant am y dyfodol, a hefyd adeiladu eu cymeriad. Yn debyg i theori Freud mae chwarae yn ffordd o blant mynegi eu hunain. Mae'n ffordd o nhw deall eu hun ar fyd o gwmpas.(Cherry, 2020). Yn ôl Pathways (2020) mae chwarae yn bwysig oherwydd mae'n ffordd o blant darganfod eu diddordebau, bydd chwarae yn annog plant i archwilio eu diddordebau. Yn ôl Parenting (2020) mae chwarae yn flynyddoedd cynnar yn fuddiol iawn, wrth i blant chwarae mae'n ysgogi datblygiad ymennydd cynnar, gan ddarparu profiadau bywyd hanfodol. Yn amgylchedd sydd wedi amgylchu a chwarae, chwarae synhwyrdd a deunyddiau chwarae, mae'n dda am adeiladu profiadau bywyd. Wrth i blant chwarae maent yn dysgu nhw gwersi bywyd, er enghraifft wrth i blant actio problemau bywyd wrth chwarae dychmygus mae'n helpu nhw delio efo'i phroblemau yn ffyrdd eu hun. Mae hyd yn oed yn rhoi cyfle i blant ymarfer sgiliau a rolau cymdeithasol. Dyweda Bright Horizons (2020) wrth i blant chwarae mae'n lledfu straen a chynyddu hapusrwydd, sy'n gwneud dysgu yn fwy hwylus iddynt. Mae'n ffordd o balnt weithio trwy eu pryderau a ofnau. Ni ddylai plant cael ei amddifad o gyfleoedd oherwydd gall effeithio datblygiad plentyn. Yn hytrach dylai amgylchedd amrywiol llawn cyfleoedd gwahanol cael eu cynllunio am blant. Mae hyn yn caniatáu plant i arbrofi syniadau newydd a creu cysylltiadau gyda phrofiadau gwahanol.

Beth yw rol chwarae hunangyfeiriedig?

Yn ôl Play Wales (2020) mae chwarae hunan gyfeiriedig yn golygu bod plant yn dewis pryd, sut a beth i'w chwarae, heb ymyrraeth oedolion. Bydd gan y plentyn teimlad o ryddid am eu bod y arweinir, nad oes nod penodol i'r gweithgaredd. Bydd plant yn penderfynu'r rheolau a rolau wrth chwarae. Dywed Megan Ledendecker (2020) bod chwarae hunan gyfeiriedig yn fuddiol iawn i blant, am ei fod yn annog plant i fod yn annibynnol o oedran ifanc, wrth fod mewn amgylchedd diogel. Bydd hun hefyd yn helpu plant meddwl yn greadigol oherwydd mae'n annog plant i ddefnyddio eu dychmyg, byddant yn gweld posibilïadau nad oes neb arall wedi'u dychmygu. Yn ysgolion mae pob plentyn yn dysgu ar gyflymderau gwahanol, ond wrth i blant chwarae hunan gyfeiriedig, maent yn cael y cyfle i adeiladu ar eu gwybodeth eu hunain, dydd i ddydd, mewn ffyrdd sy'n gwnued synnwyr iddynt ac ar gyflymder eu hun. Gan fod oedolion ddim yn ddifinio llwyddiant gweithgaredd, mae plant yn cael eu gorfodi i ddod o hyd i'r llawennydd yn chwarae. Yn naturiol bydd plant yn herio eu hun a roi cynnig ar syniadau newydd, sy'n ehnagu eu brofiadau.

Sut gall oedolion gefnogi chwarae hunangyfeiriedig?

Yn ôl Childventures (2014) er mwyn galluogi chwarae hunan-gyfeiriedig mae'n bwysig bod oedolion ac ymarferydd yn cymryd cam nol a gadael y plentyn dewis y gweithgaredd a rheolau, mae hyn yn caniatáu plant i ddysgu sgiliau a galluoedd newydd. Er enghraifft gall oedolion ac ymarferydd rhoi teganau fel peli, blociau, eitemau gwisgo (dress up), a gadael y plentyn meddwl am y gweithgaredd eu hun i annog annibyniaeth. Hefyd dywed HMS

Administrator (2018) dylai rhai teganau cael ei chreu o ddeunyddiau naturiol megis pren, ffabrig, unrhyw ddeunydd sy'n cael eu darganfod yn natur. Mae rhai oedolion yn creu 'loose part trays' i blant sef hambwrdd a botymau, llinyn, cerrig man, felly unrhyw beth sy'n edrych a theimlo yn ddiddorol. Yn hytrach na rhywun egluro peth i wneud ar deganau/deunyddiau bydd angen i'r plentyn meddwl am eu hun. Yn ôl HMS Administrator (2018) gall oedolion ac ymarferydd gefnogi chwarae hunan gyfeiriedig trwy baratoi'r amgylchedd, wrth sicrhau bod plant yn ddiogel ac efo lle agored i chwarae. Er enghraifft gartref, gall plant chwarae yn y lolfa, yr ardd yn dibynnu ar y tywydd. Mae'n bwysig bod plant efo hyblygrwydd i symud, sef gallu eistedd, neidio, rhedeg ac archwilio.

Math o chwarae- sut mae'r math o chwarae yn cefnogi datblygiad cyfannol plant?

Mae yna lawer math o chwarae sydd wedi cael eu hadnabod megis chwarae dychmygus. Yn ôl Persil (2020) chwarae dychmygus yw pryd mae plentyn yn defnyddio eu dychmyg i greu senarios y maent wedi'u gweld, eu profi neu hoffent brofi. Mae'n chwarae pen agored, anstrwythuredig, heb unrhyw reolau, nodau na chanlyniad. Mae plant yn dysgu llawer o'r math yma o chwarae. Enghraifft o chwarae dychmygus yw plant yn esgus coginio bwyd am deulu neu i lanhau tŷ. Mae chwarae dychmygus yn helpu datblygiad plentyn wrth wella eu sgiliau cymdeithasol ac iaith, gan hybu eu creadigrwydd, a sgiliau datrys problemau gan gadw nhw'n actif a hapus. Yn ol Penny Groen (2021) wrth i blant chwarae a 'loose part trays' mae'n rhoi'r cyfle i nhw creu, adeiladu, arbrofi a dyfeisio. Mae 'loose part' yn gwahodd plant i archwilio a darganfod, dychmygu a chreu, ymholi aa arbrofi a tincer wrth iddynt adeiladu ar eu sgiliau datblygol mewn amgylchedd dysgu cefnogol.

Tasg 2

Pam mae risg yn fuddiol i blant?

Yn ôl early years outdoor (2020) dyfyniad chwarae risg yw chwarae sy'n darparu cyfleoedd i blant herio eu hun, gwthio eu galluoedd, archwilio ffiniau personol a dysgu am risg anaf. Mae'r math yma o chwarae yn arwain at blant fod yn fwy hunan hyderus ac annibynnol.

Yn flynyddoedd cynnar mae cymryd risg yn gallu bod yn fuddiol iawn i blant, mae'n ffordd i nhw adeiladu ei chymeriad. Dywed Bright horizons (2021) wrth i blant cymryd risg o fewn amgylchedd diogel mae'n adeiladu hyder ac yn dysgu nhw sgiliau bywyd perthnasol, er enghraifft sgiliau modur, cydbwysu, cydbwysedd ac ymwybyddiaeth corff. Sgil arall o chwarae peryglus yw hunanreoleiddiol, sef plant yn gallu cwestiynu "Pa mor uchel yw rhy uchel yn y coed?". Wrth adael plant gwneud penderfyniadau fel hyn eu hun mae'n ganiatau'r plant i gael annibyniaeth. Hefyd wrth adael plant cael risg mae'n caniatáu oedolion ac ymarferydd i weld pa ardaloedd bydd plentyn angen fwy o gymorth. Yn ôl Hornsea nursery school (2020) mae chwarae risg yn addysgu plant sut i reoli ac asesu sefyllfaoedd, wrth i blant dysgu am eu hun a'i therfynau, mae hyn yn helpu nhw yn y dyfodol. Wrth i blant ifanc cymryd risgiau mae'n helpu nhw derbyn profiadau newydd, megis cerdded, dringo, rhedeg a reidio beic. Mae pob un o weithgareddau yma yn cynnwys risg, sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygiad plentyn. Mae llwyddiant a methiant yn rhoi'r cymhelliant i blant roi cynnig arall ar bethau, tan iddyn nhw lwyddo neu gael datrysiad. Dywed Brussoni "When we have kids engage in play, it's really a fundamental way for them to figure out the world — how the world works, how their body works,". Bydd plant yn datblygu sgil rheoli risg wrth iddyn nhw roi eu hun mewn sefyllfaoedd gwahanol, bydd plant yn gallu adnabod pryd mae rhywbeth yn anniogel neu lle mae siawns o

gael anaf. Er enghraifft wrth fynd am dro gyda phlentyn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau, megis pa lwybr sydd fwy diogel. Mae hyn yn adeiladu hyder y plentyn ac yn paratoi nhw am anturiau unigol yn y dyfodol.

Sut ydyn ni'n cydbwyso datgelu plant i risg tra'n eu cadw'n ddiogel rhag niwed?

Yn ôl early years resources (2020) mae angen i blant cael ei chadw yn ddiogel yn amgylchedd ond mae angen iddyn nhw archwilio a chymryd risgiau. Wrth i blant chwarae yn beryglus mae'n caniatáu nhw i herio eu hun yn ffyrdd gwahanol, sef yn gorfforol, er enghraifft dringo yn uwch, rhedeg yn bellach. Ffyrdd arall yw yn emosiynol, fel arfer wrth i blentyn cymryd risg maent yn goresgyn ofn. Yn olaf yn feddyliol, sef darganfod datrysiadau a dysgu eu ffiniau a hefyd am yr amgylchedd o'u gwmpas. Dywed Early years resources (2020) bod e dal yn bwysig bod plant yn cael cymorth wrth chwarae yn beryglus, felly mae'n bwysig bod oedolion ac ymarferydd yn creu amgylchedd diogel. Wrth greu amgylchedd diogel i blant, mae rhaid i ymarferydd ystyried eu dyletswydd gyfreithiol i nodi a lleihau neu ddileu risg, ond dylent hefyd ystyried y risgiau sy'n dderbyniol. Er enghraifft y risg o blentyn cwmpo o offer chwarae, gall y risg o niwed cael ei lleihau drwy sicrhau bod goruchwyliaeth, yr offer wedi lleoli yn gywir, er enghraifft i ffwrdd o ffenestri, a gall ymarferydd defnyddio matiau gwadd i ddiogelu plant o gael anaf difrifol.

Yn ôl Bright Beginnings (2017) mae'n bwysig i arsylwi plant i adnabod eu diddordebau, pethau maent yn hoffi/casáu a'u dewisiadau. Wrth wybod y rhain maent yn helpu creu amgylchedd chwarae sy'n darparu cyfleoedd sy'n bodloni eu diddordeb ac yn ymestyn eu cylch chwarae. Dylai asesiad risg cael ei chynnig yn amgylchedd cyn i blant cymryd rhan yn chwarae risg. Dywed Bright beginnings (2017) mae'n angenrheidiol bod ysgolion yn darparu cyfleoedd am chwarae anturus, felly byddent yn addasu'r amgylchedd ar offer i herio'r plant wrth chwarae. Bydd yr asesiad risg yn cydbwyso risg a manteision. Y bwriad yw, wrth ddileu cyfle oherwydd ei risg, bydd risg derbyniol yn cael ei rhoi yn ei le sy'n darparu cyfleoedd tebyg.

Tasg 3

Trafodaeth fanwl a dealltwriaeth o dull arsylwi ar gyfer plant ifanc

Yn ysgolion caiff plant eu harsylwi yn aml, yn ôl Resources for early learning (2014) mae'n broses o gasglu gwybodaeth amdano blentyn megis peth mae'n gwybod a gallu gwneud, dadansoddi'r wybodaeth ac wedyn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio gweithgareddau addysgol sydd ar lefel addas i'r plentyn allu deall a dysgu o. Wrth i ymarferydd arsylwi plant dros y blynyddoedd maent yn cadw cofnod o ddatblygiad y plentyn a gallu cynllunio cwricwlwm sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'n fuddiol i rieni hefyd oherwydd maen nhw'n gallu dilyn datblygiad ei phlentyn a deall lle mae cryfderau a gwendidau ei phlentyn, felly gallant nhw ystyried sut i gefnogi ac ymestyn eu dysgu gartref. Mae arsylwi yn hanfodol am ei fod yn gallu helpu ymarferydd nodi plant sydd â photensial o angen cymorth ychwanegol a os oes angen gwasanaethau ymyrraeth neu gymorth arnynt. I ychwanegu mae'n helpu ymarferydd rhoi cymorth i bob unigolyn a rhoi nhw mewn grwpiau sy'n datblygu ar yr un cyflymder. Wrth wneud hyn gall ymarferydd adnabod cryfderau a gwendidau pob plentyn, sy'n helpu nhw sicrhau bod y program yn cyrraedd anghenion y plentyn.

Mae yna nifer o ffyrdd gwahanol o arsylwi, enghraifft o arsylwi yw cofnod sy'n rhedeg. Yn ôl online school reports (2021) nod cofnod sy'n rhedeg yw asesu gweithgaredd plentyn

wrth iddo ddigwydd, gan ddadansoddi ei ymddygiad a pherfformiad, heb unrhyw ymyrraeth. Mae'n hanfodol bod y sylwedydd yn ysgrifennu popeth sy'n digwydd lawr. Felly mae'n arsylwad ar set benodol o ymddygiadau ac am gyfnod penodol o amser, fel arfer maent gynnwys setiau mawr o ddata. Mae cofnod rhedeg da yn cynnwys manylion am ymddygiad, diddordebau, datblygiad, gweithgareddau a rhyngweithio plentyn. Mae'n ddefnyddiol wrth arsylwi plentyn yn ei chyfnod datblygu, yn ogystal â llunio llwybr addysgol ar gyfer symud ymlaen. Hefyd mae'n ffordd o adnabod unrhyw broblemau datblygu neu heriau dysgu. Bydd y canlyniadau o hyn yn cael eu rhannu efo rhieni a gwarcheidwaid er mwyn iddynt allu cynnig y cymorth cywir.

Ar ol i'r arsylwad gorffen caiff eu cyfatherbu nol i'r rhanddeliad megis athrawon, rheini, cydlynwyr llythrennedd neu tim dysgu proffesiynol. Caiff cofnod sy'n rhedeg ei ysgrifennu yn ffordd gall grwpiau ac unigolion gwahanol ddeall. Unwaith caiff myfyriwr ei adnabod fel ymgeisydd da ar gyfer cofnod rhedeg, dylai asesiad cael ei chynnal bob 2 i 4 wythnos. Bydd hyn yn helpu cadw trac o ddatblygiad plentyn wrth ddatgelu effeithiolrwydd yr holl strategaethau ymyrraeth ac addysgol.

Yn ôl whatcom community college (2020) Mae'r math yma o arsylwad yn benagored sy'n golygu bod yr arsylwr yn gwylio popeth mae'r plentyn yn gwneud yn hytrach na chyfarwyddo plentyn i weithgaredd penodol. Dylai'r sylwedydd cadw ffocws a phenderfynu pa fanylion sy'n bwysig i ysgrifennu. Mae'n fuddiol am asesiad datblygol, rhannu gwybodaeth a rhieni, cynllunio amgylchedd addas am blant, a dysgu am ddatblygiadau plentyn. gall y wybodaeth cael rhannu efo gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn dadansoddi, oherwydd mewn rhai achosion efallai bydd angen asesiad pellach. Yn debyg i Piaget dibynnodd ar ddisgrifiadau manwl fel hyn pan luniodd ei syniadau ar feddwl gwybyddol mewn plant. gall athrawon defnyddio cofnodion rhedeg i ddysgu am bob maes o ddatblygiad plentyn. Hefyd mae'n werthfawr wrth ddod i adnabod plentyn yn well. (McLeod, 2020). Caiff cofnodion rhedeg ei defnyddio am un plentyn ar y tro. Mae'r math yma o arsylwad yn rhoi darlun cyfannol o'r plentyn am nad yw'n ffocysu ar faes unigol ond holl ymddygiad a pherfformiad y plentyn.

Sut i ysgrifennu cofnod rhedeg dda?

- Ysgrifennu ffeithiau, beth mae'r plentyn yn dweud/gwneud
- Ysgrifennu yn y bresennol
- Ysgrifennu ymddygiad yn ddilysniant
- Ffocysu ar y plentyn
- Defnyddiwch fyrfoddau er mwyn cael cymaint o ysgifen a phosibl
- Ysgrifennwch casgliad

Mae yna fanteision ac anfanteision i gofnod sy'n rhedeg. Y manteision yw bod y cofnod yn darparu data manwl am blentyn, cofnodir tystiolaeth fel mae'n digwydd mewn dilysniant, darparu tystiolaeth wrthrychol a disgrifiadol. I ychwanegu mae'n ffordd o gasglu gwybodaeth briodol megis galluoedd y plentyn, a chadw trac ar ddatblygiad plentyn dros amser, gellir ychwanegu dehongliadau a myfyrdodau yn ddiweddarach. Yr anfanteision yw mai'n cymryd amser, bydden anodd cadw lan ar blentyn wrth iddyn nhw symud o un gweithgaredd i'r llall. (Peterson, G 2021)

Tasg 4

A yw arsylwi plant mewn chwarae yn rhoi adlewyrchiad mwy clir i ni o ble maent yn eu datblygiad?

Yn ôl Early years matter (2020) mae'n bwysig i arsylwi plant wrth chwarae oherwydd mae'n ffordd o weld sut mae'n datblygu, beth yw eu diddordebau a beth maent yn dysgu trwy chwarae a phrofiadau maent yn derbyn. Trwy wneud hyn gall ymarferydd/oedolion penderfynu os mae datblygiad plentyn ar y cyfnod cywir, ac i weld os mae teganau ac offer yn addas ar gyfer y plant. Wrth wneud hyn gall ymarferydd darparu cefnogaeth i'r plentyn er mwyn iddynt ddatblygu sgiliau a diddordebau newydd yn y dyfodol. Wrth arsylwi beth mae plant yn dewis chwarae, eu diddordebau a pwy a beth maent yn hoffi chwarae ac yn rhoi gwybodaeth ddibynadwy i oedolion am blant fel unigolion. Dyweda theori Freud() bod plant yn mynegi eu syniadau a theimladau trwy chwarae. Wrth weld plentyn yn chwarae rydym yn cael dealltwriaeth o sut mae'n gweld ac yn dadansoddi'r byd o'm gwmpas, felly rydym yn gweld y plentyn go iawn. Wrth i blant chwarae maent yn datblygu nifer o sgiliau gwahanol megis sgiliau iaith a llythrennedd, datrys problemau, emosiynau, sgiliau cymdeithasol, chwilfrydedd ac empathi (educa, 2020). Er enghraifft gweld sut mae'r plentyn yn datblygu sgiliau llythrennedd wrth iddo gyfathrebu a gwrandao ar blant arall, cytuna syniad Vygotsky a hun (McLeod, 2020). Wrth ystyried erthygl Howard a McInnes (2012) mae plant efo well lles emosiynol wrth chwarae i gymharu â gweithgaredd sydd ddim fel chwarae. Wrth i blant cael well lles emosiynol mae'n helpu nhw yn bywyd i dyfu, datblygu a datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hagweddau ym mhob maes dysgu. Maent yn fwy awyddus i ddysgu, felly mae'n angenrheidiol i arsylwi plant i ddod i adnabod nhw fwy i sicrhau bod nhw'n datblygu. Dywed recouces for early learning (2020) bod arsylwi yn darparu ymarferydd a rhieni efo cofnod o ddatblygiad eu plentyn mewn pob adran megis gwybyddol, corfforol/modur, iaith, cymdeithasol-emosiynol a dulliau dysgu. Mae arsylwad yn helpu ymarferydd cael dealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau plentyn, sy'n hanfodol wrth i nh cynllunio gweithgareddau iddynt. I ychwanegu mae'n helpu nhw deall ei anghenion, sgiliau a sut maent yn dysgu gorau (churchill park blog, 2018).

Sut gall oedolion gefnogi?

Mae'n hynod o bwysig bod plant yn cael eu harsylwi yn aml er mwyn cadw cofnod o'r datblygiad ac i sicrhau nad oes unrhyw broblemau dysgu a bod nhw'n cael ei darparu ar help angenrheidiol. Dywed Early Years matter (2020) mae'r rôl oedolyn yn hollbwysig yn ddatblygiad plentyn. Mae'n angenrheidiol bod oedolion yn darparu ardaloedd diddorol i blant chwarae. Gallai cynnwys dillad, bocsys, bwcedi, hen flancedi unrhyw beth fydd yn ysbrydoli nhw chwarae neu ddefnyddio eu dychymyg i greu gweithgaredd eu hun. Dylai'r amgylchedd herio plant er mwyn ymestyn ei ddatblygiad a dysgu. Yn ôl family lives (2020) mae'n bwysig bod cyfleoedd gwahanol ar gael i blant am fod pob un a diddordebau gwahanol, enghreifftiau o adrannau chwarae yw tywod a dŵr neu blociau adeiladu, mae'n bwysig bod amrywiaeth. Arsylwi yw'r allwedd i ddeall plant, cydnabyddir bod arsylwi yn agwedd sylfaenol a hanfodol o rôl ymarferydd. Mae'n rôl nid un ond pob ymarferydd i arsylwi'r plant. Mae gan blant wahanol berthynas â gwahanol oedolion a, thrwy arsylwi, bydd pob oedolyn yn dod â phersbectif unigol i'r broses asesu ar gyfer plentyn penodol. Dylai ymarferydd arsylwi pob man, unrhyw weithgaredd mae plentyn yn cymryd rhan ynddo a dylai cael ei wneud mor aml â phosib i gadw cofnod cyfoes ar ddatblygiad y plentyn. (Nursery World, 2006). Mae'n bwysig bod oedolion deallus sydd wedi cael yr hyfforddiant i fedru arsylwi a gweld datblygiad plant.

gan ystyried y cyfnod sylfaen mae'n bwysig bod ymarferion yn cael amser o fewn ei amserlen ar gyfer arsylwi.

Rhestr cyfeirnod

Bright beginnings (2017) Adventurous risky play policy. Ar gael o: [Adventurous-and-Risky-Play.pdf \(brightbeginningschildcare.co.uk\)](http://brightbeginningschildcare.co.uk) (Darllenwyd ar: 15fed o Ionawr).

Bright Horizons (2021a) Risk taking in early childhood: when is it appropriate. Ar gael o: [Risk Taking in Early Childhood: When Is It Appropriate? | Bright Horizons®](#) (Darllenwyd ar: 15fed o Ionawr).

Bright Horizons (2021b) The benefits of play for a child's development. Ar gael o: [Benefits of Play for Child Development | Bright Horizons®](#) (Darllenwyd ar: 14eg o Ionawr).

Cherry, k (2020) an overview of Sigmund Freud's theories. Ar gael o: [An Overview of Sigmund Freud's Theories \(verywellmind.com\)](http://verywellmind.com) (Darllenwyd ar: 14eg o Ionawr).

Childventures (2021) Best ways to encourage self directed play. Ar gael o: [Best Ways to Encourage Self-Directed Play - Childventures](#) (Darllenwyd ar: 13eg o Ionawr).

Churchill park (2018) Why observation is important? Ar gael o: [Why Observation is Important? | Kids@ Churchill Park](#) (Darllenwyd ar: 13eg o Ionawr).

Early years matter (2020) Play and learning. Ar gael o: [Play & Learning - Early Years Matters](#) (Darllenwyd ar: 14eg o Ionawr).

Early years outdoors (2020) Outdoor learning in early years. Ar gael o: [Risky play | Outdoor learning in the early years \(wordpress.com\)](#) (Darllenwyd ar: 15fed o Ionawr).

Family lives (2020) why is play important. Ar gael o: [Why play matters - Family Lives](#) (Darllenwyd ar: 15fed o Ionawr).

HMS administrator (2018) why encourage self-directed play?. Ar gael o: [Why Encourage Self-Directed Play? | Hollis Montessori School, NH](#) (Darllenwyd ar: 13eg o Ionawr).

Hornsea nursery school (2020) risky play. Ar gael o: ['Risky Play' | Hornsea Nursery School](#) (Darllenwyd ar: 13eg o Ionawr).

Ledendecker, m (2020) Why encourage self directed play. Ar gael o: [Why Encourage Self-Directed Play? \(berkshireremontessori.org\)](#) (Darllenwyd ar: 15fed o Ionawr).

McLeod, s (2020) Piaget's 4 stages of cognitive development. Ar gael o: [Piaget Stages of Development | Simply Psychology](#) (Darllenwyd ar: 14eg o Ionawr).

McLeod, s (2020) Lev Vygotsky's sociocultural theory. Ar gael o: [Lev Vygotsky's Sociocultural Theory | Simply Psychology](#) (Darllenwyd ar: 13eg o Ionawr).

Nursery world (2006) observing children. Ar gael o: [Observing children | Nursery World](#) (Darllenwyd ar: 14eg o Ionawr).

Pathways (2020) why is play important. Ar gael o: [What is Playtime so Important? | Child Development Resources \(pathways.org\)](#) (Darllenwyd ar: 13eg o Ionawr).

Parenting (2021) Importance of play in early childhood. Ar gael o: [Importance of Play in Early Childhood \(9 Benefits & Infographic\) \(parentingforbrain.com\)](#) (Darllenwyd ar: 13eg o Ionawr).

Persil (2020) what is imaginative play? 10 ideas for the whole family. Ar gael o: [What is Imaginative Play? | Ideas & Examples – Persil](#) (Darllenwyd ar: 15fed o Ionawr).

Play wales (2021) Playing and hanging out. Ar gael o: [Play Wales | Chwarae Cymru](#) (Darllenwyd ar: 13eg o Ionawr).

Recources for early learning (2014) early childhood assesment. Ar gael o: [Early Childhood Assessment: Resources for Early Learning](#) (Darllenwyd ar: 14eg o Ionawr).